LIVING STREETS

DEWCH I NI GERDDED I'R YSGOL

CANLLAW I ATHRAWON

# Dewiswch BARCIO A CHERDDED yn lle GYRRU

## Canllaw ar sefydlu cynllun Parcio a Cherdded yn eich ysgol

Dysgwch ragor yn
LIVINGSTREETS.ORG.UK/PARKANDSTRIDE







# Beth yw PARCIO a CHERDDED?

**Mae Parcio a Cherddded yn syniad syml i deuluoedd sy'n byw yn bell i fwynhau manteision cerdded i'r ysgol hefyd.**

**Os yw teuluoedd yn gyrru, neu'n teimlo eu bod yn byw yn rhy bell i gerdded yr holl ffordd i'r ysgol, gofynnwch iddynt barcio ddeg munud i ffwrdd a chwblhau gweddill eu taith ar droed. Os ydyn nhw'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, awgrymwch eu bod nhw'n dod oddi ar y bws/trên un neu ddau safle yn gynt a cherdded gweddill y ffordd.**

Gall eich ysgol sefydlu cynllun Parcio a Cherdded ffurfiol drwy nodi ardal addas y gall rhieni/gofalwyr barcio ynddi, nad yw'n rhy bell o'r ysgol (e.e. busnes lleol neu faes parcio cymunedol) a chael caniatâd i'w defnyddio. Os nad oes gan eich ysgol opsiwn ar gyfer cynllun parcio a cherdded ffurfiol, yna gallech chi annog parcio diogel ac ystyriol ar ffyrdd sydd o fewn taith gerdded deg munud o'r ysgol.



## Ydych chi'n cymryd rhan yn WOW yr her cerdded i'r ysgol?

Cofiwch fod teithiau Parcio a Cherddded yn cyfrif tuag at ennill bathodyn WOW!



# AWGRYMIADAU ar sefydlu eich cynllun PARCIO a CHERDDED



## 1. Mapiwch o le y mae teuluoedd yn teithio

Mapiwch godau post cartref disgyblion i ddarganfod y llwybrau mwyaf cyffredin i'r ysgol, neu edrychwch ar ddalgylch yr ysgol. Gallwch chi wneud hyn yn weithgaredd ystafell ddosbarth llawn hwyl gyda'r disgyblion. I'ch helpu gyda'r gweithgaredd hwn, teipiwch 'plot postcode on a map' yn eich peiriant chwilio i ddod o hyd i wefannau a all helpu gyda hyn.

## 2. Dewis lleoliad parcio

Meddyliwch am feysydd parcio sy'n debygol o fod yn llai prysur pan fydd yr ysgol yn cychwyn ac yn gorffen, e.e., neuaddau tref, eglwysi, tafarndai a chanolfannau cymunedol. Mae gan archfarchnadoedd a pharciau manwerthu feysydd parcio mawr gyda llawer o le yn aml, ac maen nhw'n awyddus i gefnogi eu cymuned leol hefyd. Os nad oes un o'r opsiynau hyn ar gael, edrychwch i weld a allai ffyrdd lleol alluogi rhieni i barcio a cherddded yn ddiogel ac yn ystyriol heb achosi aflonyddwch.





## 3. Sicrhewch ganiatâd

Unwaith y byddwch chi wedi dewis y lleoliad, bydd angen i chi gysylltu â'r perchennog neu'r rheolwr er mwyn gofyn am ganiatâd i'w ddefnyddio. Mae gan Living Streets lythyr templed defnyddiol y gallwch chi ei weld ar dab **ADNODDAU** Traciwr Teithio WOW neu yn:

**livingstreets.org.uk/wowlaunch**

Gwiriwch gyda pherchennog y maes parcio i sicrhau bod gan ei yswiriant gymal atebolrwydd cyhoeddus rhag ofn i rywun gael ei anafu wrth ddefnyddio'r safle. Bydd meysydd parcio sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan aelodau'r cyhoedd wedi'u cynnwys fel arfer.

## 4. Lledaenwch y gair

Beth am gynnwys erthygl yng nghylchlythyr yr ysgol neu anfon llythyr adref at rieni yn egluro sut mae parcio a cherdded yn gweithio? Cofiwch gynnwys map i ddangos lleoliad y safle parcio a cherdded swyddogol. Gall disgyblion hefyd helpu drwy ddylunio posteri, arwyddion neu faneri sy'n hyrwyddo'r cynllun a theithio llesol i drigolion lleol, neu drwy ysgrifennu llythyrau at eu rhieni/gofalwyr yn eu hannog i gymryd rhan.

## 5. Mynnwch gefnogaeth gan y cyngor lleol

Bydd cael eich cynghorwyr a'ch cyngor lleol yn rhan o'r cynllun yn ei helpu i redeg yn fwy llyfn. Efallai y byddan nhw hefyd yn gallu rhoi cymorth gwerthfawr fel gorfodi parcio o amgylch gatiau'r ysgol, ymweliadau gan gynghorwyr a chyhoeddusrwydd.



## PARCIO a CHERDDED ar waith

"Roedd angen i ni weithredu i sicrhau bod ein plant yn ddiogel y tu allan i gatiau'r ysgol. Roedd rhieni'n gyndyn o barcio i ffwrdd o'r ysgol, ond roedd y plant am ennill eu bathodynnau WOW felly nhw oedd y rhai oedd yn eu hannog i ddefnyddio'r cynllun Parcio a Cherdded."

Jodie Myers, Athrawes, Ysgol Gynradd Beaumont, Bolton



Dysgwch ragor yn
LIVINGSTREETS.ORG.UK/PARKANDSTRIDE

# Cysylltwch â ni

Cysylltwch i gael rhagor o wybodaeth am sefydlu cynllun Parcio a Cherdded – byddem wrth ein bodd yn clywed gennych:

walktoschool@livingstreets.org.uk
020 7377 4900

Cadwch mewn cysylltiad ar y cyfryngau cymdeithasol:

- @LIVINGSTREETS
- LIVINGSTREETSUK
- LIVINGSTREETS

Modeshift STARS Approved Initiative

**Wni yw Living Streets elusen y du dros gerdded bob dydd**

Mae Living Streets (The Pedestrians' Association) yn Elusen Gofrestredig Rhif. 1108448 (Cymru a Lloegr) a SC039808 (Yr Alban), Cwmni Cyfyngedig drwy Warant (Cymru a Lloegr), Rhif Cofrestru'r Cwmni 5368409.